



**BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
CASTELL-NEDD PORT TALBOT**





CYFLWYNIAD



Mae Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot wedi llunio asesiad drafft o les yng Nghastell-nedd Port Talbot (CNPT) er mwyn bodloni gofynion statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a hoffem wybod a yw ein hasesiad o fywyd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn gywir. Mae'n bwysig i chi ddweud eich dweud, gan y bydd yr asesiad yn llywio blaenoriaethau Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot yn y dyfodol.

Mae'r asesiad drafft yn ceisio crynhoi cryfderau ac asedau pobl a chymunedau ar draws Castell-nedd Port Talbot. Mae hefyd yn ceisio disgrifio'r heriau a'r cyfleoedd y mae Castell-nedd Port Talbot yn eu hwynebu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ac sy'n cael eu rhannu gyda chi fel rhan o'n proses ymgynghori ffurfiol.






Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Bydd y gyfraith newydd hon yn golygu y bydd yn rhaid i gyrff cyhoeddus a restrir yn y ddeddf, am y tro cyntaf, wneud yr hyn y maent yn ei gwneud mewn ffordd gynaliadwy. Er mwyn gwneud hyn, mae'r ddeddf yn gosod "egwyddor datblygu cynaliadwy" sy'n ymwneud â sut y dylai'r gyrff cyhoeddus a restrir yn y ddeddf fodloni eu dyletswydd lles o dan y ddeddf.

Mae'r egwyddor yn cynnwys pum ffordd o weithio y mae angen i'r gyrff cyhoeddus eu hystyried wrth gynnwys datblygu cynaliadwy yn eu gwaith. Y rhain yw:

- Edrych tua'r tymor hir er mwyn sicrhau nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.
- Mabwysiadu ymagwedd integredig er mwyn i gyrff cyhoeddus ystyried y nodau lles wrth benderfynu ar eu hamcanion lles.
- Cynnwys amrywiaeth y boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- Cydweithio ag eraill mewn modd cydweithredol i ddod o hyd i atebion.
- Deall achosion sylfaenol problemau i'w hatal rhag digwydd.

Mae'r ddeddf yn gosod saith nod llesiant. Gyda'i gilydd, maent yn darparu gweledigaeth a rennir i'r gyrff cyhoeddus a restrir yn y ddeddf weithio tuag ati. Mae'n rhaid ystyried y nodau lles fel cyfres integredig o saith er mwyn sicrhau bod y cysylltiadau perthnasol yn cael eu gwneud yng nghyd-destun gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.





NODAU



CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS



Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a grëir drwy sicrhau swyddi da.

CYMRU GYDNERTH



Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

CYMRU IACHACH



Cymdeithas lle mae lles corfforol a meddyliol pobl yn cael eu mwyafu a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

CYMRU SY'N FWY CYFARTAL



Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS



Cymunedau atyniadol, llawn addewid sydd â chysylltiadau da.

CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU



Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden.





Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud rhywbeth o’r fath gyfrannu’n gadarnhaol at les byd-eang.



Mae’r ddeddf yn gosod y ddyletswydd lles ar gyrff cyhoeddus penodol i weithio ar y cyd drwy fyrddau gwasanaethau cyhoeddus i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd drwy gyfrannu at gyflawni’r nodau lles. (Am fwy o wybodaeth am Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT cliciwch yma (add link to PSB page))

Er mwyn gwneud hyn, mae’r ddeddf yn mynnu bod Byrddau y Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnal ac yn cyhoeddi asesiad o gyflwr lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd. Mae’n bwysig bod yr asesiad hwn yn rhoi dadansoddiad cywir o gyflwr lles yn CNPT, gan y bydd hyn yn llywio’r blaenoriaethau y mae Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu pennu yn ei Gynllun Lles Lleol y mae angen ei gyhoeddi cyn mis Mai 2018 yn unol â’r ddeddf.

Am fwy o wybodaeth am Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT, dilynwch y ddolen ganlynol:
(<https://www.npt.gov.uk/default.aspx?page=12572>)





Mae'r ddeddf yn pennu'r hyn y mae'n rhaid i Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT ei wneud er mwyn cynnal yr asesiad:

- Nodi'r cymunedau sy'n ffurfio CNPT.
- Dadansoddi cyflwr lles ym mhob cymuned ac ar draws CNPT.
- Dadansoddi cyflwr lles pobl CNPT.
- Cynnwys unrhyw ddadansoddiad pellach y mae Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei wneud er mwyn asesu cyflwr lles CNPT.
- Cynnwys rhagfynegiadau o dueddiadau tebygol yn y dyfodol yn CNPT.
- Cyfeirio at Ddangosyddion Cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Cynnwys unrhyw ddata dadansodol a gwybodaeth berthnasol arall y mae Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried ei fod yn briodol.

Wrth lunio Asesiad Lles CNPT, mae llawer iawn o dystiolaeth wedi'i dadansoddi er mwyn llywio'r asesiad lles drafft i CNPT. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn cynnwys ymchwil, gwybodaeth am berfformiad, tystiolaeth a gasglwyd i lywio Cynllun Datblygu Lleol y cyngor ac asesiadau cenedlaethol a lleol eraill a gynhaliwyd (gan gynnwys yr adolygiadau a'r asesiadau statudol hynny y mae'r ddeddf yn nodi y mae'n rhaid i Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus eu hystyried wrth baratoi'r asesiad lles). Cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu hefyd a oedd yn cynnwys arolwg ar-lein a grwpiau ffocws a gynhaliwyd ar draws cymunedau.


Er mwyn bodloni gofynion statudol y ddeddf, mae'r asesiad lles drafft wedi dadansoddi'r pedwar piler lles canlynol:

- Cymdeithasol
- Economaidd
- Amgylcheddol
- Diwylliannol

Mae hyn wedi cynnwys asesu lles ar draws ardal gyfan CNPT a'r wyth ardal gymunedol. Nododd Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus yr ardaloedd hyn fel yr wyth ardal gymunedol sy'n ffurfio CNPT am mai nhw yw'r ardaloedd gofodol a nodwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol y cyngor sydd wedi bod yn destun ymgynghori a chynnwys helaeth yn ddiweddar. Bydd hyn yn sicrhau cysylltiad rhwng y Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Lles Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus, (pan gyhoeddir cyn Mai 2018), sy'n gynlluniau sy'n ceisio effeithio ar les CNPT.

Mae pob un o'r wyth ardal gymunedol yn cynnwys nifer o wardiau etholiadol, ardaloedd penodol o'r fwrdeistref sirol, ac wedi'u diffinio at ddibenion etholiadol, gweinyddol a chynrychioladol. Gall etholwyr cymwys bleidleisio ym mha ward bynnag y maent wedi'u cofrestru ynddi dros yr ymgeisydd neu'r ymgeiswyr y maent yn dymuno i'w cynrychioli yn y Cyngor Bwrdeistref Sirol.

Mae'r wyth ardal gymunedol wedi'u hamlygu ar y map isod:





STRWYTHUR



Mae'r tudalennau canlynol yn cynnwys y penawdau ar gyfer ein hasesiad a strwythurir yn y ffordd ganlynol:



CYMDEITHASOL



ECONOMAIDD



AMGYLCHEDD



DIWYLLIANT

INTEGREIDDIAD RHWNG Y 4 THEMA LLES



Er bod canfyddiadau'r asesiad ar gyfer pob un o'r pileri uchod yn cael eu cyflwyno ar wahân, daeth yr integreiddiad rhwng y themâu i'r amlwg wrth i'r asesiad fynd rhagddo. Er enghraifft, mae iechyd (cymdeithasol) yn gysylltiedig â'n gallu i fyw bywyd llawn a chytbwys, gan gynnwys gweithio (economaidd), cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol (diwylliannol), gwirfoddoli (diwylliannol), mwynhau ein hamgylchedd naturiol a chyfrannu ato. Mae'r amgylchedd naturiol hwn yn hanfodol i'n lles, gan ddarparu manteision iechyd uniongyrchol ac anuniongyrchol (cymdeithasol) ac yn cynnal ein ffyniant (economaidd) ar gyfer y dyfodol. Mae amgylchedd o ansawdd da yn rhoi llawer o fanteision naturiol i ni sy'n ein cadw'n hapus ac yn iach (cymdeithasol), megis awyr iach i'w anadlu, dŵr i'w yfed, bwyd, tanwydd a lleoedd hyfryd i ni ymarfer corff ac ymlacio ynddynt (diwylliannol). Mae'n bwysig felly ein bod yn deall yn union sut yr ydym yn elwa o'n hamgylchedd naturiol, fel ein bod yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd ac yn gwneud penderfyniadau mwy deallus am ein lles.



PORT TALBOT



CASTELL-NEDD



PONTARDAWE



DYFFRYN AMAN



DYFFRYN NEDD



DYFFRYN ABERTAW



DYFFRYN AFAN



DYFFRYN DULAIS



Os hoffech ddarllen mwy am unrhyw un o'r adrannau uchod, mae dogfen i'w lawrlwytho ar gael ar ddiwedd pob adran.





**BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

